CANLLAW GWEITHREDU AR GYFER

Plant yn gadael yr ysgol ar ddiwedd y sifft bore yn Mandanpur Khadar, Delhi. Mae 2,400 o ddisgyblion yn yr ysgol gynradd orlawn hon.
Llun: David Levene/GCE UK

CYFLWYNIAD

Yn 2000, gwnaethpwyd addewid gan dros 180 o wledydd ledled y byd y byddai plant ym mhobman, merched a bechgyn fel ei gilydd, yn gallu cwblhau cwrs addysg gynradd llawn erbyn 2015.

Yn 2000, nid oedd tua 110 miliwn o blant yn mynychu'r ysgol. Gwnaethpwyd cynnydd cynnar cyflym tuag at addysg i bawb, a chofrestrodd miliynau ar filiynau o blant yn yr ysgol am y tro cyntaf. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r cynnydd wedi arafu. Yn 2015, nid oedd 58 miliwn o blant yn mynychu'r ysgol gynradd o hyd, a hynny oherwydd gwrthdaro, argyfyngau economaidd a diffyg menter wleidyddol.

PAM Y MAE'R CYNNYDD WEDI ARAFU?

Mae yna brinder gweithwyr iechyd cymwysedig yn Ghana. Er enghraifft, mae gan y DU ddeg gwaith yn fwy o nyrsys a bydwragedd fesul 10,000 o'r boblogaeth na Ghana.

Mae addysg dda yn ymwneud â mwy na dim ond nifer y plant sy'n mynychu'r ysgol. Mae athrawon, hyfforddiant athrawon, maint dosbarthiadau a chyfleusterau'r ysgol hefyd yn bwysig iawn i sicrhau bod plant yn cael addysg dda. Mewn llawer o wledydd, mae nifer y plant sy'n cofrestru wedi tyfu heb ddigon o fuddsoddiad i wneud yn siŵr bod y plant yn dysgu hyd eithaf eu gallu. Hefyd, mae agweddau cymdeithasol at faterion fel rhyw ac anabledd yn atal llawer o blant rhag mynychu'r ysgol. Yn olaf, mae argyfyngau tebyg i wrthdaro, trychinebau naturiol, ac epidemigau iechyd yn atal 37 miliwn o blant ledled y byd rhag mynd i'r ysgol.*

BETH Y MAE ANGEN IDDO NEWID?

Mae angen mwy o fuddsoddiad mewn addysg i ddiwallu anghenion merched, plant tlawd, plant ag anableddau, a phlant sy'n byw mewn gwledydd y mae argyfwng yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, nid yw'r gwledydd cyfoethog yn darparu peth o'r arian cymorth y maent wedi'i addo, ac nid yw rhai gwledydd sydd â llawer o blant nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn gwario digon o'u cyllidebau eu hunain ar addysg.

Y daith ar droed i'r ysgol yn Mandanpur Khadar, Delhi
Llun: David Levene/GCE UK

BETH Y GALLWCH CHI EI WNEUD?

1. Hysbysu

Addysgu eraill am y broblem o ran addysg a'r rhwystrau niferus y mae plant yn eu hwynebu i ddysgu yn yr ysgol.

2. Lledaenu

Cynllunio camau gweithredu creadigol er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth yn eich ysgol a'ch cymuned.

3. Dylanwadu

Meddyliwch am sut y gallwch berswadio'r rheiny sy'n gwneud y penderfyniadau pwysig i wneud rhywbeth i helpu.

*Ystadegau o www.sendmyfriend.org